YSTADEGAU, DOGFENNU

# Gweithlu practis cyffredinol: ar 30 Mehefin 2024

Gwybodaeth am nifer y cleifion cofrestredig a dosbarthiad oedran y gweithlu, ar 30 Mehefin 2024.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 24 Hydref 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 24 Hydref 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


## Cyflwyniad

## Prif bwyntiau

## Ansawdd allweddol a methodoleg

## Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Prif ffynhonnell y data a ddefnyddir yw'r System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS) sydd wedi'i gyflenwi a'i ddilysu gan Bartneriaeth Cydwasanaethau'r GIG.

# Prif bwyntiau

## Yng Nghymru, ar 30 Mehefin 2024

- 372 o bractisau meddygon teulu yn weithredol, sef gostyngiad o 7 (1.8%) ers 30 Mehefin 2023.
- 1,606 o feddygon teulu cwbl gymwysedig CALI, sef cynnydd o 29 (1.8%) ers 30 Mehefin 2023. Mae hyn yn cynnwys partneriaid, darparwyr, meddygon teulu cyflogedig, meddygon teulu wrth gefn a staff locwm gweithredol yn unig.
- 414 o gofrestryddion mewn practis cyffredinol (meddygon teulu dan hyfforddiant) CALI, sef cynnydd o 17 (4.2%) ers 30 Mehefin 2023.
- 5,961 o staff eraill practisau CALI, sef cynnydd o 9 (0.2%) ers 30 Mehefin 2023.

### Ar ôl dadansoddi yn ôl mathau penodol o feddygon teulu a grwpiau o staff

- 1,452 o ymarferwyr cyffredinol CALI, sef cynnydd o 23 (1.6%) ers 30 Mehefin 2023. Mae hyn yn cynnwys partneriaid, darparwyr a meddygon teulu cyflogedig yn unig.
- 11 o feddygon teulu wrth gefn CALI, sef gostyngiad o 1 ers 30 Mehefin 2023.
- 142 o feddygon teulu locwm gweithredol CALI, cynnydd o 7 (5.4%) ers 30

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Mehefin 2023.  Gweler yr adran ansawdd allweddol a methodoleg i gael gwybodaeth am newidiadau i gwmpas y term locwm o ddata 31 Mawrth 2024.
- 1,040 o nyrsys cofrestredig CALI, sef gostyngiad o 5 (0.5%) ers 30 Mehefin 2023.
- 967 o staff gofal uniongyrchol i gleifion CALI (sef staff nad ydynt yn feddygon teulu nac yn nyrsys ond sy'n darparu gwasanaethau iechyd i gleifion, megis cynorthwywyr gofal iechyd, cyflenwyr meddyginiaeth a fferyllwyr), sef cynnydd o 6 (0.6%) ers 30 Mehefin 2023.
- 3,954 o staff gweinyddol neu staff practis anghlinigol eraill CALI, sef cynnydd o 9 (0.2%) ers 30 Mehefin 2023.

Os nad oes contract ar waith rhwng y bwrdd iechyd a phartner meddyg teulu, gall y bwrdd iechyd lleol reoli practis cyffredinol gyda staff a allai gynnwys meddygon teulu cyflogedig a meddygon teulu locwm.

Ar 30 Mehefin 2024 roedd 20 o bractisau'n cael eu rheoli gan fyrddau iechyd lleol, 6 yn llai nag ar 30 Mehefin 2023. Roedd y practisau hyn yn cyflogi 74 o feddygon teulu cyfwerth ag amser llawn a 361 o staff practis ehangach cyfwerth ag amser llawn. Mae'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau ar gyfer staff.

## Ansawdd allweddol a methodoleg

Fel y nodwyd yn yr **adroddiad ansawdd**, o ddata 31 Mawrth 2024, cyfrifir yr holl locwm a oedd yn weithredol yn y chwarter, gan gynnwys gwaith locwm mewn practisau a reolir gan y bwrdd iechyd lleol na chafodd eu cofnodi trwy Locum Hub Wales (LHW). Cofnodwyd cyfanswm o 3.7 locwm CALI mewn practisau a reolir gan fyrddau iechyd ac nid trwy LHW ar 30 Mehefin 2024 (cyfrif pen o 10), 2.6% o'r cyfanswm meddyg teulu locwm CALI.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Manylion cyswllt

Ystadegydd: Sabir Ahmed
E-bost: **ystadegau.iechyd@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/gweithlu-practis-cyffredinol-ar-30-mehefin-2024-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.